



Beth yw'r gwahaniaeth rhwng 'gwasanaethau cofrestredig' a 'gwasanaethau byw gyda chymorth'?

Yn aml, mae dewis ble i fyw a phwy i fyw gyda nhw yn rhywbeth mae pobl yn ei gymryd yn ganiataol – dydyn ni ddim. Rydyn ni'n deall bod cael y dewisiadau hyn yn gwneud i bobl deimlo eu bod mewn rheolaeth o'u bywydau, felly rydyn ni'n cefnogi pobl ag anabledd dysgu i fyw ble maen nhw'n dewis a sut maen nhw'n gwneud hynny yn ein gwasanaethau.

Rydyn ni'n darparu gwahanol fathau o wasanaethau ar gyfer pobl ag anabledd dysgu i'w cefnogi i fyw bywydau da. Gelwir y ddau fath o wasanaeth Mencap y mae pobl yn byw ynddyn nhw yn wasanaethau cofrestredig a gwasanaethau byw gyda chymorth. Dyma ragor o wybodaeth am y ddau.

Gwasanaethau cofrestredig

Gall gwasanaethau cofrestredig hefyd gael eu galw'n wasanaethau preswyl neu gartrefi gofal preswyl. Mae'r math hwn o gefnogaeth yn cyfuno gofal a llety gyda chefnogaeth am bedair awr ar hugain. **Mae'r person yn byw dan ofal y cartref yn hytrach na chael ei gytundeb tanantiaeth ei hun.**

Sut mae'r oriau o gefnogaeth y mae pobl yn eu cael yn cael eu penderfynu?

Mewn gwasanaethau cofrestredig, mae'r lefel o gefnogaeth yn cael ei seilio ar y nifer o bobl sy'n byw yn y gwasanaeth a'u hanghenion fel grŵp. Bydd cefnogaeth ar gael i bob person sy'n byw yn y gwasanaethau hyn am bedair awr ar hugain y dydd ond bydd hyn y amrywio gan ddibynnu ar lefel eu hangen fel unigolyn.

Byw gyda chymorth

Gwasanaethau yw byw gyda chymorth ble mae pobl yn cael cefnogaeth yn eu cartrefi eu hunain, weithiau o fewn cartref y teulu neu mewn llety cymwys neu sydd wedi'i addasu mewn man arall. Mewn sefyllfa byw gyda chymorth bydd person yn cael ei gytundeb tanantiaeth ei hun a gall cefnogaeth amrywio o ymweliadau i bedair awr ar hugain, gan ddibynnu ar yr angen. Mewn gwasanaethau byw gyda chymorth mae pobl yn cael cefnogaeth gan gydweithwyr gwasanaeth am orchwylion penodol fel gofal personol,

golchi dillad, glanhau, bwyta, mynd allan, coginio neu wneud gorchwylion gweinyddol. Cyflogir cydweithwyr am gyfnod priodol i gwrdd ag anghenion unigolion; gall hyn fod am ychydig oriau neu am ddiwrnod cyfan a thros nos.

Rhennir rhai gwasanaethau byw gyda chymorth gan bobl sydd ag anghenion tebyg.

Sut mae'r oriau o gefnogaeth y mae pobl yn eu cael yn cael eu penderfynu?

Mae Mencap yn cael ei gomisiynu i ddarparu cefnogaeth am y nifer o oriau a gytunir gan y gwasanaethau cymdeithasol. Mae asesiad hollgynhwysol a wneir gan aseswr y gofal cymdeithasol yn penderfynu sut mae'r oriau hyn yn cael eu cyfrifo yn ogystal a'r ffordd y dylen nhw gael eu defnyddio. Adolygi'r y nifer o oriau cefnogi y mae rhywun yn eu cael yn rheolaidd gyda'n cyfranogiad ni. Weithiau rydyn ni'n gwneud cais am i'r adolygiad ddigwydd yn gynt er mwyn cynyddu oriau rhywun os ystyrir bod hyn yn angenrheidiol.

Fel aelod o'r teulu, fe ddylech fod yn ymwybodol o'r oriau y mae'r aelod o'ch teulu wedi'i gomisiynu i'w cael a sut byddai hyn yn edrych. Byddwn yn rhoi gwybod i chi os bydd unrhyw gynlluniau i newid y rhain. Gofynnwch i'r rheolwr sy'n gofalu am y gwasanaeth os hoffech unrhyw wybodaeth bellach.

Sut mae Mencap yn sicrhau ansawdd a phrofiad da?

Rydyn ni'n gweithio i sicrhau bod ein gwasanaethau'n cyrraedd y safonau a osodir gan eu rheolyddion neu'n mynd gam ymhellach na hynny. Yng Nghymru, Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yw'r rheolydd.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth ynghylch y ffordd y mae ein gwasanaethau'n cael eu rheoleiddio yn y ddogfen 'Pwy sy'n rheoleiddio gwasanaethau Mencap?' yn y pecyn Gwell Gyda'n Gilydd.

I sicrhau ein bod yn darparu gofal o'r ansawdd orau heb ystyried y rheolyddion allanol, mae gennym ein safonau ansawdd ein hunain: **Y Pethau Mwyaf Pwysig**, sy'n ein helpu i gefnogi pobl yn y ffordd orau bosibl. Mae'r safonau hyn wedi'u datblygu i gynnwys y pethau y dywedodd pobl wrthyn ni eu bod yn bwysig iddyn nhw. Gweler dogfen 'Sut mae Mencap yn cefnogi pobl mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn?' yn y pecyn hwn am ragor o wybodaeth.

